Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Hysbyseb Aelod Pwyllgor

| | |
|---|---|
| *Teitl Swydd* | Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi Medr: Swyddi i **dri** aelod annibynnol |
| *Amdanom Ni* | Rydym yn gorff hyd braich newydd i Lywodraeth Cymru, sy’n gyfrifol am y strategaeth, y cyllid a'r oruchwyliaeth ar gyfer:<br><br>• addysg bellach, gan gynnwys colegau a'r chweched dosbarth mewn ysgolion;<br>• addysg uwch, gan gynnwys ymchwil ac arloesi;<br>• addysg oedolion a dysgu oedolion yn y gymuned; a<br>• phrentisiaethau a hyfforddiant.<br><br>A ninnau'n weithredol ers 1 Awst 2024, byddwn yn cydweithio’n agos â’n partneriaid i alluogi system addysg drydyddol ac ymchwil sy’n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr; cymdeithas; a’r economi, gyda rhagoriaeth, cydraddoldeb ac ymgysylltu’n greiddiol iddi.<br><br>Mae ein gwerthoedd o bwys gwirioneddol inni; maent yn helpu i lywio diwylliant ein sefydliad:<br><br>• **Dysgu -** mae dysgu’n greiddiol i bopeth a wnawn. Rydym yn credu bod chwilfrydedd yn hybu arloesi ac yn helpu i ehangu ein gorwelion.<br><br>• **Cydweithio** - gallwn gyflawni llawer mwy gyda’n gilydd nag y gallem fyth ei wneud ar ein pennau ein hunain.<br><br>• **Cynnwys Pawb** - rydym yn frwd dros gynhwysiant, gan geisio creu’r amodau cywir i bawb wireddu eu llawn botensial.<br><br>• **Rhagori** - mae gennym ddyheadau uchel ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru ac rydym felly’n gosod safonau uchel i ni ein hunain er mwyn inni fod ar ein gorau.<br><br>Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan am werthoedd, gweledigaeth ac amcanion Cynllun Strategol Medr Hafan - Medr |
| *Beth fyddwch chi'n ei wneud* | Mae Medr (Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) wedi sefydlu Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am gynghori Bwrdd Medr ar faterion sy'n ymwneud ag ymchwil ac arloesi, gan gynnwys goruchwylio datblygiad polisi, yn unol â dyletswyddau a nodau strategol Medr, a'r egwyddorion ar gyfer cyllid i gefnogi'r gweithgareddau hyn, a'r dyraniadau ar eu cyfer. Mae’r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am gynghori’r Bwrdd ynghylch cynaliadwyedd |

| | |
|---|---|
| | ymchwil, diwylliant ymchwil, cenhadaeth ddinesig, a gwelliant parhaus i ansawdd ymchwil ac arloesi yng Nghymru.<br><br>Rydym yn chwilio am **dri** aelod annibynnol sydd â phrofiad o ymchwil ac arloesi:<br><br>• Aelod sydd yn **Brif Ymchwilydd gweithredol** o sefydliad addysg uwch yng Nghymru.<br>• Aelod sydd â phrofiad o ymchwil ac arloesi mewn **cyd-destun diwydiant ac/neu fusnes**<br>• Aelod sy'n gweithio fel **aelod staff sy'n galluogi ymchwil** mewn darparydd addysg drydyddol yng Nghymru<br><br>Croesewir ceisiadau gan unigolion sydd â phrofiadau byw, neu sydd wedi cymhwyso'r profiadau hynny'n ymarferol.<br><br>Mae'n ofynnol i bob aelod ddangos gwerthfawrogiad o ddwyieithrwydd a rhannu ymrwymiad y Comisiwn i hyrwyddo'r Gymraeg. |
| *Ynghylch y Pwyllgor* | Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am oruchwylio datblygiad polisi Medr mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi. Bydd y Pwyllgor yn sicrhau bod polisïau a chyllid yn cael eu datblygu yn unol â dyletswyddau a nodau strategol Medr.<br><br>Bydd y Pwyllgor fel arfer yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn, drwy gymysgedd o gyfarfodydd o bell drwy fideo-gynadledda, a chyfarfodydd yn y cnawd yn ein pencadlys yng Nghwr y Ddinas, Caerdydd. Cynhelir pob cyfarfod yn ystod oriau swyddfa arferol ac fel arfer ni fydd yn para mwy na thair awr. Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd (Cymraeg/Saesneg) ym mhob cyfarfod Pwyllgor.<br><br>Yn ogystal â bod yn bresennol yn y cyfarfodydd, bydd agen ichi neilltuo amser i ddarllen papurau'r cyfarfod a gwybodaeth gefndirol.<br><br>Dyma ddyddiadau cyfarfod y Pwyllgor sydd wedi'u hamserlennu ar hyn o bryd:<br><br>• 24 Mehefin 2025<br>• Medi 2025 (i'w gadarnhau)<br><br>Fel aelod o Bwyllgor Medr, bydd disgwyl ichi gadw at yr egwyddorion a nodir yn y [Cod Ymarfer ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus](). Bydd yn ofynnol ichi ddatgan pob buddiant perthnasol drwy lenwi ffurflen datgan buddiannau, a bydd y manylion hynny'n cael eu harddangos i'r cyhoedd ar wefan Medr. |
| *Beth fyddwch chi'n ei gynnig* | Byddwch yn cynnig safbwynt annibynnol allanol ac yn cefnogi a herio gwaith y Pwyllgor.<br><br>Bydd gan bob ymgeisydd ddealltwriaeth o ddatblygiad polisi lleol, cenedlaethol neu ryngwladol, a bydd wedi bod yn ymwneud â chyflawniad strategol o fewn ei sefydliad. Bydd gennych ddealltwriaeth gref o amgylchedd polisi ymchwil ac arloesi'r DU, a |

| | |
|---|---|
| | byddwch yn gweld sut mae ymchwil ac arloesi mewn prifysgolion yn gysylltiedig â datblygiad economaidd a blaenoriaethau eraill sydd gan y llywodraeth.<br><br>Yn ddelfrydol bydd gennych brofiad/cefndir mewn un neu fwy o'r meysydd canlynol:<br><br><u>Prif Ymchwilydd</u><br><br>- Yn ddelfrydol bydd gennych ystod o brofiad o fod yn gyfrifol am gyflawni ymchwil annibynnol ac/neu arloesi mewn cyd-destun academaidd.<br>- Yn ddelfrydol bydd gennych broffil rhyngwladol a mynediad at ystod o rwydweithiau disgyblaethol ar draws Cymru, y DU ac yn rhyngwladol.<br><br><u>Cynrychiolydd Diwydiant</u><br><br>- Yn ddelfrydol bydd gennych ystod o brofiadau mewn rôl ymchwil ac/neu arloesi, mewn cyd-destun diwydiannol neu fusnes.<br>- Bydd disgwyl ichi feddu ar brofiad o gynlluniau cydweithredol ag ymchwilwyr prifysgol, o adeiladu ymchwil ym mhroffil eich sefydliad ac/neu o gyfrannu at y tirlun arloesi yn eich maes.<br><br><u>Aelod o staff sy'n galluogi ymchwil</u><br><br>- Yn ddelfrydol bydd gennych ystod o brofiad o gefnogi datblygiad a gweithrediadau sy'n gysylltiedig ag ymchwil ac/neu arloesi yng nghyd-destun addysg drydyddol.<br>- Bydd disgwyl ichi feddu ar brofiad o weithredu prosiectau a rhaglenni mawr a ariennir yn allanol, fel canolfannau ar gyfer hyfforddiant doethurol, rhaglenni ymchwil mawr ac/neu rwydweithiau a ariennir, a chefnogi mentrau ac ymyriadau ymchwil strategol a ariennir yn fewnol yn eich sefydliad.<br><br>Bydd angen ichi ddod ag angerdd ac ymrwymiad dros ecwiti, amrywiaeth a chynhwysiant i'r penodiad.<br><br>Rydym hefyd yn ceisio taro cydbwysedd ar draws ein Pwyllgor o ran daearyddiaeth ac arbenigedd pwnc. |
| *Telerau'r penodiad* | Mae'r rôl am gyfnod penodol o dair blynedd. Rôl ddi-dâl yw hon, ond byddwn yn talu costau teithio a chynhaliaeth. |
| *Manylion y Broses Ddethol* | Mae’r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd amrywiaeth yn ei gyfansoddiad ac wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd cynhwysol lle caiff pob llais ei glywed a'i werthfawrogi. Bydd y Pwyllgor yn ceisio sicrhau bod ei aelodaeth yn cynrychioli ystod amrywiol o gefndiroedd a phrofiadau. Bydd y Pwyllgor yn croesawu ymholiadau / ceisiadau am aelodaeth yn y Gymraeg ac yn Saesneg a bydd yn annog ceisiadau gan unigolion o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli ar y Pwyllgor ar hyn o bryd. |

| | |
|---|---|
| | Rydym yn ymdrechu i greu gweithle amrywiol a chynhwysol ac mae arnom eisiau eich helpu chi i ddangos eich potensial llawn beth bynnag fo'r dull asesu a ddefnyddir. Byddwn yn hapus i drafod unrhyw addasiadau i'r broses benodi sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Cysylltwch â pobl@medr.cymru.<br><br>Penodir i'r swydd ar sail teilyngdod.<br><br>Yn unol â deddfwriaeth diogelu data, ni fydd manylion yr ymgeiswyr aflwyddiannus, gan gynnwys eu CV, yn cael eu cadw am gyfnod hirach nag sydd angen i ddibenion prosesu'r cais hwn. Gofynnir am ganiatâd mewn ysgrifen gennych os bydd Medr yn dymuno cadw eich manylion ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol.<br><br>Os credwch fod gennych yr wybodaeth a'r arbenigedd i ychwanegu gwerth fel aelod o'n Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi, e-bostiwch eich CV, y ffurflen monitro cydraddoldeb atodedig (i'w chwblhau'n wirfoddol), ynghyd â datganiad personol (uchafswm o 750 gair) yn rhoi tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni gofynion y rôl o ran profiad/cefndir, a'ch ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, erbyn Dydd Gwener 4 Ebrill 2025.<br><br>*Drwy e-bost:*<br><br>ymchwil@medr.cymru<br><br>Drwy'r post:<br><br>Ymchwil ac Arloesi<br>Medr<br>2 Cwr y Ddinas<br>Stryd Tyndall<br>Caerdydd<br>CF10 4BZ<br><br>I fod yn deg â phawb sy'n ymgeisio, ni fyddwn yn derbyn:<br><br>- Ceisiadau hwyr<br>- Ceisiadau â gwybodaeth sydd ar goll neu'n anghyflawn<br>- Datganiadau personol dros 750 o eiriau |
| *Y Camau Nesaf* | Am ragor o wybodaeth am y rôl neu am waith y Pwyllgor, cysylltwch â'r Cyfarwyddwr Ymchwil, Arloesi a Sgiliau harriet.barnes@medr.cymru. |